# Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc Dalgylch Y Berwyn 2017

Penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd yn eu cyfarfod ar 24 Hydref 2017 i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar ddyfodol ysgolion dalgylch Y Berwyn; yn benodol ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac Y Berwyn.

Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol yn Nalgylch y Berwyn rhwng 22 Tachwedd 2017 a 10 Ionawr 2018 ar y cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 oed ar safle presennol ysgol Y Berwyn. Roedd hyn yn dilyn penderfyniad y Cabinet yn mis Mehfin 2017 I dynnu'n ol y cynnig a ymgynghrowyd arno rhwng 13 Mawrth a 28 Ebrill 2015.

Paratowyd dogfennau priodol ar gyfer plant Cyfnod Allweddol 2 yn y Cynradd ac aelodau'r Cyngor Ysgol yn yr Uwchradd a trefnwyd bod hwylusydd yn mynychu pob ysgol i drafod y cynnig gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle i'r plant ddatgan barn am y cynnig.

Esboniwyd bod y newid yn golygu :-

- Y bydd Ysgol Beuno Sant yn cau;
- Y bydd Ysgol Bro Tegid yn cau;
- Y bydd Ysgol y Berwyn yn cau;
- Y bydd Campws Dysgu yn cael ei sefydlu ar safle presennol Ysgol y Berwyn ar gyfer disgyblion 3-19 oed;
- Y bydd safle presennol Ysgol y Berwyn yn cael ei addasu er mwyn creu'r Campws Dysgu newydd;
- Y bydd disgyblion Beuno Sant, Bro Tegid a'r Berwyn yn trosglwyddo i'r Campws Dysgu newydd;
- Y bydd y Campws yn cael ei reoli gan un Pennaeth ac un Corff Llywodraethu;
- Y bydd ysgolion OM Edwards, Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn yn parhau'n agored ac yn elwa o'r Campws Dysgu.
- Y bydd cydbwyllgor yn cael ei sefydlu rhwng yr ysgolion gwledig a'r Campws i sicrhau fod yr Ysgolion gweldig hefyd yn elwa o'r buddsoddiad arfaethedig yn Y Bala.

Roedd pob sesiwn yn cymryd tua hanner awr i awr i'w gwblhau. Roedd yn cynnwys esbonio'r cynnig a chwblhau holiadur.


Roedd 6 ysgol yn gysylltiedig a 76 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan.

Gweler isod amserlen y sesiynau ymgynghori, rhestr yr ysgolion perthnasol a nifer yr ymatebwyr:-

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dydd Mercher**<br>**20 Rhagfyr 2017** | **1.15pm**<br>**Ysgol Ffridd y Llyn** | **2.15pm**<br>**Ysgol Bro Tryweryn** | | |
| **Dydd Iau**<br>**21 Rhagfyr 2017** | **9.30am**<br>**Ysgol Beuno Sant** | **11.00am**<br>**Ysgol y Berwyn** | **12.15pm**<br>**Ysgol Bro Tegid** | **1.45 pm**<br>**Ysgol OM Edwards** |

**Ysgolion:**

1. Ysgol Bro Tryweryn - 8
2. Ysgol Ffridd y Llyn - 9
3. Ysgol OM Edwards - 16
4. Ysgol Bro Tegid - 8
5. Ysgol Beuno Sant - 10
6. Ysgol Uwchradd Y Berwyn - 25



**Gweler isod yr ymatebion a dderbyniwyd gan y disgyblion**

*NODER - Mae sylwadau'r plant a'r bobl ifanc wedi eu dyfynnu'n uniongyrchol o'u hymatebion.*

| **Cwestiwn 1 – Sut wyt ti'n teimlo am hyn?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Hapus** | **Anhapus** | **Ddim yn Sicr** |
| **Ysgol Beuno Sant** | 2 | 1 | 7 |
| **Ysgol Bro Tegid** | 1 | 1 | 6 |
| **Ysgol O M Edwards** | 8 | 0 | 8 |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | 6 | 0 | 3 |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | 6 | 0 | 2 |
| **Ysgol Uwchradd y Berwyn** | 11 | 2 | 12 |
| **Cyfanswm** | 34 | 4 | 38 |

| **Cwestiwn 1 – Sut wyt ti yn teimlo am hyn?** | |
|---|---|
| **Ysgol Beuno Sant** | • Dwi'n meddwl fysa o yn siawns da i ddysgu llawer mwy o pethau a cyfarfod at pobl eraill.<br>• Rydw i ddim eisiau i'r ysgol i chau oherwydd dwi wedi fod yn yr ysgol rhan fwyaf o fy fywyd.<br>• Ella bydden ni yn colli ein ffrindiau. Bydd hyn yn anodd colli arferion ein hysgol rwan. Bydd ni yn colli Ysgol Beuno Sant. |
| **Ysgol Bro Tegid** | • Rydw i yn teimlo bod hyn yn mynd i ffod yn grêt i Bro tegid Beuno Sant i ddod at i gilydd a gwneud ffrindiau newydd.<br>• Oherwydd dydw i ddim eisiau yr Ysgol yma i gau ond fyswn yn hoffi gweld plant yn cymysgu hefo'i gilydd. Mae yn myndi fod yn ôd i weld plant 3 oed hefo rhai 19 oed.<br>• Oherwydd rwyf yn meddwl bod yr Ysgol yn mynd i fod yn gret i dref ond rydw yn teimlo bod yna plant yn gallu cael ei adae Allan.<br>• Yn fy marn i rydw i yn teimlo yn ansicir oher wydd tydw i ddim isio i Ysgol Bro Tegid cau lawr gan fod rhan mwyaf o fy nhelu wedi dod yma ac mae Ysgol Bro Tegid yn lle hapus iawn. Ar y llaw arall mae'r digwyddiad hwn yn mynd i greu llawer o gyfleuoedd i ni fel plant.<br>• Beth bydd yn digwydd amser cinio a amser chwarae.<br>• Oherwydd mae rhai pethau o'r Ysgol yn syniad da ond ar y llaw arall mae yna lawer o bethau ddyle cael ei newid fel plant 3-19 oed fod ar y run un iard wrth ymul y fford rydw i yn meddwl ddyle hyne ddim digwydd.<br>• Yn fy marn i mae pob dim sydd yn digwydd yn yr Ysgol newydd chydig bach yn wirion oherwydd rhwng pob dim tydi llawer o blant ddim eisiau ein Ysgol i gau (Bro Tegid).<br>• Oherwydd mae yr plant bach yn fynd i chwarae mewn lle dim saff mae yna traffic ac mae yna gymaint o plant yna does ddim lle! |
| **Ysgol O M Edwards** | • Mwy o blant i Ysgol Beuno Sant<br>• Dydw i ddim yn poeni am llawer.<br>• Dydw i ddim yn hapus iawn oherwydd dydi'r plant bach ddim yn cael symyd fynu ac yn cael ei bwlio yn hyn.<br>• Dydw ddim yn hapus fod plant bach yn mynd i fynd ir union Ysgol am 16 blwyddun<br>• Wrach fydd y plant Ysgol gynradd yn aflonyddu ar y plant hynaf eisiau sylw o hyd.<br>• Dydw i ddim yn hoff iawn o'r syniad o'r plant cynradd ac Uwchradd yn cymysgu |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | • Rydw i yn hoff o'r syniad. Rydw i yn edrych ymlaen am hyn<br>• Dwi yn hapus hefo'r cynllun dwi isio addysg gwell. A stafellau gwell<br>• Dim cau yr Ysgol |

| | |
|---|---|
| | • Rydw i yn meddwl ei fod yn syniad da gan fydd pobl yn cael profiadau gwell. A cael y siawns i ddefnyddio adnoddau gwell.<br>• Rydw i yn hapus hefo hyn am y newidiadau oherwydd Rydwyf yn awyddus i ddefnyddio nhw |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | • Na |

| Cwestiwn 2 – Beth sy’n dy boeni am hyn? | |
|---|---|
| **Ysgol Beuno Sant** | • Fydd pawb yn neis? Fydden ni yn cael clwbs ar ôl Ysgol? Fynd ar goll?<br>• Wrach bydd yna llawer o pobl a bydd hi’n teimlon yn rhy llawn ac yn rhoi pwysau arnoch chi.<br>• Rydwi yn poeni am cael ei bwlio yn yr Ysgol Newydd. Ac ei bod yn rhy llawn o plant.<br>• Lle mae yr athrawon Ysgol Bro Tegid a Ysgol Beuno Sant yn ei mynd<br>• Rydw i yn foini am mynd ar goll yn yr Ysgol oherwydd mae hi yn Ysgol fawr iawn.<br>• Bwlio. Mwy o pobol yn y Ysgol.<br>• Rwyn poeni am bwlio. Rwyn poeni os fydda i yn mynd ar goll. Rwyn poeni os fyddai ben fy hun a neb eisiau bod fy ffrind.<br>• Rwy’n poeni am dan plant yn bwlio fi a fyddai yn mynd ar goll yn yr Ysgol newydd.<br>• Dwi yn boini am fy frindiau pyth yn fy cofio.<br>• Bydd yn anoddach byth cyraedd y dosbarth oherwydd bydd gormod o blant a gormod o dosbarthau. |
| **Ysgol Bro Tegid** | • Does yna ddim byd rydw i yn boeni i fynd i’r Ysgol newydd. Ond be fydd yn digwydd amser cinio a amser chwarae?<br>• Yr pobl hun yn llecho bobl bach ac yn brifo.<br>• Sut fydd clybiau ar ôl Ysgol yn gweithio<br>• Yr unig peth sydd yn fy moini ydi bod plant o 3 oed i 19 oed gydai gilydd.<br>• Bydd ddim yr un cyflyoedd i pob disgibyl. Bydd pawb ar yr un iard. Bydd pawb yn cael cinio yr un amser.<br>• Plant 3-19 yn chware ar y run un iard sef iard bach wrth ymul y ffordd a ellith hynny fod yn beryg.<br>• Ar y fynyd tydi lle chwarae y plant ddim yn edrych yn saff iawn oherwydd ei bod reit wrth ymyl y ffordd a pan fydd plant yn chwarae fydd yn beryglus i’r plant.<br>• Gymaint o blant ac wrach ddim lle iddynt dyna Pam rwyf i yn boeni. |
| **Ysgol O M Edwards** | • Dim digon o offer<br>• Plant yn bwlio eraill yn yr Ysgol newydd<br>• Dim byd am fy hun ond ella am y plant llai ac fydd y nhw ddim yn gael y cyfle i wneud ffrindiau efo i gilydd.<br>• Plant mawr yn bwlio plant bach. Ddim digon o offer<br>• Fod wrach neb yn gallu gwneud y pethau mae nhw eisiau.<br>• Fydd y plant i gyd yn cael amserlen am pryd mae’n amser chwarae.<br>• fydd y plant bach yn cael iard a cau i chware.<br>• Gofyn am ganiatad cyn rhoid llyniau ohonof ar y we<br>• Dwin’ poeni bod y plant hyn! Yn tynu llyn ac yn rhoi ar y we neu rhibeth fel snapchat.<br>• Fod Rhywyn yn bwlio ni neu gwneud i ni colli Frindiau agos<br>• Fydd y plant mawr yn bwlio y plant bach ar y fordd i’r Ysgol.<br>• Uwchradd yn bwlio y cynradd<br>• Ffydd y Plant hyn yn gwneud hwyl ar dy ben di<br>• Bydd y Plant bach yn cael cae chwarau ei hunaun.<br>• Fydd yna ddim bwlio yne. Fydd ddim gwneud Hwyl ar ben Pobol<br>• Bydd y plant bach yn cael lle chwarae, (e.e) iard a cae i chware. |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | • Dim byd. Gwneud ffrindiau Newydd. Fi ydi’r unig ferch yn Bl.6<br>• Dydi hyn ddim yn poeni fi o gwbl. |

| | |
|---|---|
| | • Dydw i ddim eisiau i'r plant mawr bod yn budur hefo'r plant bach.<br>• Plant yn mynd allan yr ryn pryd ar amser cinio<br>• If the older kids play ruf and if the yunger kids get in ther way. They mayt get hert<br>• Dim lot o le i bobol<br>• Efallai fydd plant llai yn cael ei trin yn arw gan y plant hyn. |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | • Dim byd<br>• Dim byd<br>• Dim byd<br>• Dim byd yn fy mhoeni i<br>• Nagoes<br>• Dim byd<br>• Pan fydden yn mynd i ysgol Berwyn fydd yna lawer o bobl yn y Ysgol ac fydd pawb yn swil.<br>• Dim llawer, dim ond y ffaith bod dim llawer o Ysgolion bach ar agor dim mwy |

| Cwestiwn 3 – Beth hoffet ti weld yn digwydd fel rhan o’r newid yma? | |
|---|---|
| **Ysgol Beuno Sant** | • Y amgylchedd yn newid. Pobl yn trio pethau newydd- rhoi challeng i dy hun. Neb yn bwlio plant eraill.<br>• Bod yr athrawon yn gallu bod yn araf hefo ni os ydyn ni ddim yn ddallt. Dysgu gwersi goginio.<br>• Teachers newydd.<br>• Mae y plant 3 oed yn cael amser chwarae cyn y plant mawr<br>• Fyddw i yn eisiau gwneud gwaddoniaeth a celf<br>• Lapiau gwythoniauth, caeau pel droed, ymarfer corf<br>• Ymarfer corff<br>• Bod rydym yn cael gwneud ymarfer corff a gwersi cymraeg a seusneg i fi cael dysgu seusneg.<br>• Mwy o franec ac speneg ond llai o Iaith sysneg.<br>• Cael mwy o addysg. Cael mwy o ffrindio. |
| **Ysgol Bro Tegid** | • Fyswn i yn hoffi i bawb wneud frindiau a pawb i gwybod mwy am bawb arall.<br>• Mi fysun yn hoffi gweld bobl yn cymysgu hefo’i gilydd ac yn gwneud ffrindiau hefo’i gilydd fel mynd mewn i Ysgol Uwchradd.<br>• Clybiau fel pêl droed, hoci, rygbi a tripiau.<br>• Mwy o brofiadau a cyleoedd ac gweld pethau newydd.<br>• Deiallt sut mae nhw yn gwneud yr proses. Bod yn rhan o’r newid.<br>• Mi faswn i yn hoffi i i’r Ysgol ail sortio y pethau gydai a y pethau gyda maint y dosbarthiadau. Yn fy marn i faswn i yn hoffi plant cael mwy o le yn ei dosbarthiadau.<br>• Bod yna mwy o gymraeg yn cael ei ddangos yn yr Ysgol a mwy o blant yn cymdythasu.<br>• Parc i y blant bach. Fwy o lle i pawb. Gwyddgareddau i pob ddosbarth. Pawb yn cael contest hoci mewn te hoci. |
| **Ysgol O M Edwards** | • Cael mwy o offer Technoleg. Cael mwy o offer Gwyddoniaeth.<br>• Plant yn gwneud ffrindiau oherwydd bod mwy o blant<br>• fwy o gyflaeodd hefo chwaraeon<br>• cael mwy o offer technoleg<br>• Gobeithio fod ne cae rugbi ac kit rugbi a a pethau eraill iw ein helpu dysgu<br>• Bod pawb yn hapus o hyn.<br>• Addusg ar gyfer ein oed<br>• Ei bod ni yn cael gwneug gwithgareddau newydd.<br>• Ein bod ni yn dysgu wrth cael hwyl<br>• Dysgu wrth gwneud pethau hwyl a cael mwy o gyflaon<br>• Mwy o gyfleuoedd i ddefnyddio y cae.<br>• Gwisg Ysgol gwanhol lliwiau gwahanol<br>• Hoffwni weld yr adusg yn hwyl i’r plant er mwyn i nhw hofi yr adusg<br>• Gwneud mwy o ymarfer corf<br>• Bod pawb yn hapus ac yn hapus o hyn. |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | • Dal fod yn ffrindiau efo frindiau fi<br>• Bod y Plant hŷn yn gweithio hefo ei gilydd, ac gweld y Plant mawr yn chwarae hefo y rhei bach.<br>• Mwy o technoleg yn cael ei ddafnyddio<br>• Plant mawr a plant bach yn ymyno ar dydd Gwener fel chwarae gem neu rhibeth arall<br>• Two schools worck together<br>• Pethau newyd<br>• Rycbi<br>• Mwy o dechnoleg ac mwy adnoddau gwyddoniaeth |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | • Bod at in gilidda nyad ffrindiau<br>• Gweld pawb yn ffridiau |

| | |
|---|---|
| | • Fod yr Ysgolion Bach (ffridd y llyn, OM Edwards, Ysgol Bro Tryweryn) yn cael yr pethau fel cyfrifiduron ac gemau or Ysgolion sydd yn cau<br>• Gweld pawb yn dod at ei gilydd, ac yn ffrindie.<br>• Dod at ein gilydd a gwneud ffrindiau.<br>• Ysgolion yn dod i adnabod plant o Ysgolion eraill.<br>• Pawb yn dod yn un gymuned fawr |

| Cwestiwn 4 – Beth yw'r pethau pwysicaf i chi yn yr ysgol? | |
|---|---|
| **Ysgol Beuno Sant** | • Ffrindiau, GCSE, chwaraeon, bwyd neis<br>• Ffrindiau, cael graddau dda yn yr Ysgol, cael HWYL! siarad Cymraeg<br>• Dim cael ei bwlio<br>• Peidio cael bwlio am amser chwarae<br>• Yr peth pwusicaf yn yr Ysgol yw i fi dysgu pethau a rwy fi yn hofi i dysgu spaeneg, gwaddoniaeth, celf a iaith. Dwi yn gorfod gwneud siwr fod dwi yn mynd ir dosbarth gowir a aros efo fy frindiau.<br>• Frindiau. Dysgu. Yr Ysgol.<br>• Bod fyddai yn gwneud ffrindiau Newydd.<br>• Bod rydw i yn gwneud ffrindiau a nhw yn bod yn ffrindiau efo fi a gwybod y ffordd rownd.<br>• Yr addysg ac gwaith cartref oherwydd ellwn ni dysgu mwy.<br>• Dydm ni ddim yn cael ein bwlio. Diwrnod myffti. Partiau. Chwaraeon. Lle i eistedd lawr. |
| **Ysgol Bro Tegid** | • Neb yn cael i fwlio a gwbod bod pawb yn iawn.<br>• Pawb i fod yn ffrindiau neb i frifo. Gobeithio y fod yr Ysgol yn digon saff i plant fynd i'r Ysgol.<br>• Bod yna plant yn mwynhau a dysgu<br>• Bod yna digon o offer i cael chwarae gyda amser chwarae. A bod ganddynt addysg da a cyfleuoedd newydd.<br>• Dysgu ar plant yn cael y "ffredom" i gwneud pethau. Gael cyrfau i fod yn timau.<br>• Yr pethau pwysicaf iddaf i ydi bod pawb ddim yn gorfod rhannu y toiledau a bod pawb ddim yn gorfod chwarae ar y run un iard.<br>• Bod pawb yn ffrindiau. Ein bod yn cael ein trin yn cyfartal.<br>• Help pryd angen, athrawon yn gael seshwn tablau a pawb yn gafael ar ein gylydd. |
| **Ysgol O M Edwards** | • Bod yn hapus a gwneud ffrindiau<br>• Gwneud ffrindiau newydd ac addysg<br>• Chwaraeon oherwydd dyna dwi eisiau wneud pryd dwi'n hyn.<br>• Bod yn hapus. Cael ffrindiau. Dyscu<br>• Rygbi, Ffrindiau, Maths, Iaith, chwareon, Ffuseg ac dysgu am y corff.<br>• Ffrindiau, Parch, chwaraeon, digon o fwlio. A digon o salwch<br>• Digon o gyfrifiaduron.<br>• Digon ond dim gormod o waith cartref<br>• Ein bod ni yn cael ffrindiau newydd o Ysgolion eraill ac athrawon newydd ac addysd dda.<br>• Ein bod ni yn cael frindiau newydd ac yn cael addysc dda<br>• Chwarae rygbi a peldroed.<br>• Rycbi, pel- Droed, chwareuon, ffrindiau, Dodgeball<br>• Bod yr addusg yn mwy hwyl<br>• Yr Pethau pwysicaf iw cael digon o pethau i plant cael addusg dda.<br>• Ymarfer corf. Pel rwyd<br>• Digon o gyfrifiadurion a pethau sydd yn pwisig. A digon o offeri amser chwarae. |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | • Fy Frindiau, yr Athrawon a maths ac Dim ffreo<br>• Ystafelloedd gwell, offer gwell ac addysg<br>• ffrindiau<br>• ffrindiau a bawb yn Hapus<br>• frends, worck, brother and sister<br>• Dim plant yn ffryo<br>• Ffrindiu<br>• ffrindiau |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | • nyud guaith a cal hwyl<br>• hwyl ffrindiau ag chwarau chwaruon |

| | |
|---|---|
| | • fod Pawb yn hapus hefor' newid yma<br>• Cael hwyl. Dod at ein gylidd. Siarad efo ffrindie ac bod yn garedig hefo nhw. Chwarae chwaraeon. Technoleg.<br>• Ffrindiau<br>• Hwyl, chwareon, ffrindiau<br>• Bod pawb yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol<br>• Addysg. Hwyl. Chwareon. ffrindiau |

| Cwestiwn 5 – Pa syniadau sydd gennych ar gyfer y Campws Dysgu newydd? | |
|---|---|
| **Ysgol Beuno Sant** | • Bydden ni help ffrindiau yn y campws. Ffrindiau newydd. Newid.<br>• Mae rhai or blwyddyn yn cael amser chwarae ar wahan i eraill. Merched a fechgyn yn chwarae pêldroed hefo gilydd.<br>• Athrawon newydd ac pennaeth.<br>• Rwu i yn hofi gweld cinima a llawer o sports.<br>• Bascitball cort, prisepel offis<br>• Pêl rhwyd<br>• Basgetball a pel droed.<br>• Ein bod yn gael mwy o gwersi yn yr ysgol |
| **Ysgol Bro Tegid** | • Pawb yn cymysgu gydai gilydd a gwneud frindiau<br>• Neb i fwlio y plant bach neu fydd pethau yn mynd yn waeth ac fydd pawb yn galw ein Ysgol yn enwau. Pyddwch yn ofalus. Pob lwc diolch<br>• Rwyf yn meddwl bod y campws yn peth da i plant dod at ei gilydd a dysgu i plant 3- 19 oed.<br>• Bod plant 3 oed ddim yn cael cinio neu amser chwarae gyda ei gilydd.<br>• Gwneud mwy o Technoleg oherwydd dydw i ddim yn meddwl bod yn gwybod Llawer o technoleg pryd mae eraill ddim yn gwybod chawer.<br>• Fy syniadau i at y campws dysgu newydd yw peidio gorfod chwarae ar y run un iard a peidio gorfod rhannu y toiledau.<br>• Bod pawb yn cael ei level o waith yn gywir i cael llwyddiant yn y dyfodol<br>• Pawb gael wal waw pob dydd gwener. |
| **Ysgol O M Edwards** | • Offer i roid fwy o addysg fewn.<br>• Amserlen gwahanol i bob set.<br>• Bod ni yn cael gwneud gweithgreddau newydd a hwyl.<br>• Mae Merched a bechgyn yn cael chwarae hefoi gilydd<br>• Cae newydd i chwarae rygbi.<br>• Mwy o gwersi celf |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | • Mwy o celf<br>• Clwb beicio |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | • Ffrindie, cwafe, chwareuon, athrawon hapus<br>• Chwarae rygbi. Athrawon ffeind ac hapus. Bod yn ffrindiau.<br>• Athrawon Hapus Plant clen a chwareon |

| Ysgol Uwchradd y Berwyn | |
|---|---|
| **Cwestiwn 1 - Wyt ti'n cytuno â'r hyn sy'n cael ei gynnig?** | • Syniad da i gyfuno cymunedau a'u ddod at eu gilydd- helpu ffrindiau datblygu. Gwneud ffrindiau newydd.<br>• Dim isio plant bach yn yr Ysgol. Unigolion ddim yn cael sylw.<br>• Mae plant bach yn gallu cael ei brifo<br>• Dim cymaint o sylw i unigolion<br>• Dim syniad. Oherwydd fod sylwadau pellach yn mynd i effeithiau ar agwedd Gord. |
| **Cwestiwn 2 - Beth wyt yn ei hoffi neu'n edrych ymlaen ato gyda'r cynnig yma?** | • Gweld yr Ysgol newydd a gweld y popl newydd<br>• Gweld yr Ysgol newydd. Ystafelloedd newydd<br>• Cael y gymraeg yn nol yn fyw<br>• Gwel yr podol newydd<br>• Cael gweld plant ifanc yn datblygu ei sgiliau cymdeithasol a sgiliau allweddol.<br>• Adeilad newydd moethus<br>• Ysgol mwy modern sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain! Ysgol mwy eco- gyfeillgar.<br>• Rydw i'n edrych ymlaen i bod o dan yr un tô a fy 2 brawd a chwaer. Ysgol mwy yn y Bala. Mwy o gyfleuon?<br>• Ffrindie newydd<br>• Gweld plant bach yn datblygu. Ysgol ac ystafelloedd newydd.<br>• Edrych yn mlaen mae plant bach yn dod.<br>• Yr adeilad newydd<br>• Newid dillad Ysgol.<br>• Rwyf yn edrych yn mlaen i gael Ysgol newydd.<br>• Gweld yr Ysgol yn datblygu<br>• llawer<br>• Gampfa mawr sports.<br>• Cael cadeiriau da ac athrawon newydd.<br>• Adnoddau newydd<br>• Canteen newydd.<br>• Dysgu<br>• Edrychia dyfodoloaidd<br>• Mwy o ddisgyblion<br>• Bod y plant bach yn dod yma, bod yr Ysgol newydd yn dwad, Ysgol newyd yn bala, dyfodol |
| **Cwestiwn 3 - Oes unrhywbeth yn dy boeni am y cynnig?** | • Plant bach swnllyd i fod yn onast<br>• Ddim am y cynnig yn benodol, ond mae gennyf bryderon am blant yn amharchu'r Ysgol newydd. Athrawon/ staff yn colli eu swyddi.<br>• Plant yn amharchu'r Ysgol gydol oes.<br>• llwch<br>• Plant bach yn cael mwy o sylw – Ysgol yn fynd rhy fawr.<br>• Y plant 3 oed yn ein Ysgol rhaid ir dinner ladies gore y byd yn gorfod bwydo 700 o blant o blant dim bwyd i ni<br>• Mae diner ladys mwy da yn y byd cael y sack.<br>• Fydd yr Ysgol yn llenwi yn gyflym.<br>• Plant bach ofn Plant mawr<br>• Buildars peryglus a swn gwersi.<br>• Buidars a swn yn y gwersi<br>• Sŵn mewn gwersi<br>• Swn yn y gwersi<br>• Ella fydd o'n cymud rhi hyr. Mi fydd na pobl sydd yn amharchus<br>• Sŵn mewn gwersi<br>• Enw'r Ysgol ac newid dillad Ysgol. Plant bach yn cael eu brifo |
| **Cwestiwn 4 - Gan ystyried y pethau sy'n bwysig i ti mewn Ysgol – pa fath o bethau** | • Plant yn cael cymdeithasu yn y gymraeg<br>• Plant yn gael ei cymdeithasu yn y cymraeg<br>• Plant yn cael cymdeithasu yn y gymraeg<br>• Plant yn cael cymucas yn y cymraug<br>• Plant bychin a phobol ifanc yn cymdeithasu yn y gymraeg |

| | |
|---|---|
| **hoffet ei weld yn y Campws Dysgu newydd?** | • Ffonau symudol<br>• Theatr, Neuadd newydd, y dechnoleg ddiweddaraf, gwersi disgyblaeth!!!<br>• Neuadd newydd, cael gwres yn yr Ysgol, fwy modern, cae tennis.<br>• Lot<br>• Gampfa newydd<br>• Lle i actio/ conputor newydd<br>• Hoffwn weld pynciau gwahanol.<br>• Pethau i helpu pobol sydd eisiau datblygu ei sciliau.<br>• Mwy o adnoddau ar gyfer Pawb<br>• Offer<br>• Beiros sy'n gweithio a pensiliau lliw.<br>• Mwy o adnoddau chwaraeon.<br>• Lot<br>• Offer chwaraeon newydd.<br>• Mwy o bethe sy'n gwithio<br>• Pitch pel droed/ rugby<br>• Offer celf newydd.<br>• Seti, byrddau/desciau, ffonau symudol i'r Ysgol. |
| **Cwestiwn 5 - Mae datblygu Campws Dysgu yn gynnig arloesol i ddalgylch y Berwyn. Pa syniadau sydd gennyt ar gyfer y Campws Dysgu Newydd?** | • Cael gwres yn pob stafell maen oer yna<br>• Grwes gynes yn yr ystafelloedd dosbarth<br>• Cael gwres yn pob stafell, (rhai yn oer iawn!)<br>• Pawb yn cael gwasanaeth gyda'i gilydd. Cael gwres sydd yn gweithio ym mhob ystafell (Mae rhai yn oer iawn).<br>• Athrawon teg- dim llawer o waith cartref= pwysau<br>• Gwersi disgyblaeth, gwresogydd biomass, egni geothermal, iPad/ tablet/ laptop personol i bawb sy'n cael ei gadw yn yr Ysgol, pwll nofio/ y ganolfan hamdden, sinema/ theatr.<br>• Gwresogyddau newydd, cyfrifiaduron modern.<br>• Mwy o gynnig chwaraeon.<br>• Yn fy marn i does dim syniad ar agwedd personol ond does hefyd mae hyn yn dangos fod allwedd cyffredinol y campus yn warthus ac hefyd fydd hyn yn medru dangos dim syniad ar y cais.<br>• Mwy o adnoddau e.e. chwaraeon.<br>• Llawer<br>• Dim yn sicr.<br>• Gadael ni fynd ar ffonau, gwersi PCs<br>• Mwy o adnoddau.<br>• Lot o pethau newydd |

Beth ddaeth yn amlwg o'r broses ymgynhori oedd fod plant yn fodlon addasu i sefyllfa newydd er eu bod yn poeni am fwlio, colli ffrindiau ac athrawon, ond yn gyffredinol roedd yr adborth yn bositif yn rhan fwyaf o'r ysgolion.

Prif bwyntiau'r ymgynghori:

| Cynradd | Uwchradd |
|---|---|
| Bod y plant yn awyddus i fod efo'i ffrindiau ac i wneud ffrindiau newydd. | Pwysigrwydd gwarchod y Gymraeg. |
| Ofn colli ffrindiau. | Poeni am yr ystod oedran eang yn yr ysgol. |
| Awyddus i gael pob cyfle posib efo'r offer / Adnoddau gorau posib. | Angen gwell offer ac Adnoddau. |
| Bod pawb yn hapus, ond rhai yn ansicr o'r sefyllfa fod ysgolion yn cau. | Sicrhau fod yr awyrgylch ddysgu yn addas – e.e. bod yr ystafelloedd yn gynnes a dim sŵn yn y gwersi. |
| Yr angen i sicrhau fod pawb yn iawn e.e. nad oedd bwlio yn digwydd (oherwydd yr ystod oedran). | Ehangu ar y cyfleoedd sydd ar gael. |
| Poeni fod plant rhwng 3 ac 19 oed o dan yr un to. | |
| Beth fydd yn digwydd amser cinio ac amser chwarae. | |
| Mynd ar goll mewn ysgol fawr. | |